Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
20/2022
Dyddiad Cyhoeddi:
23/03/2022

# Cynllun Cymorth Hunanynysu COVID-19

## Adolygiad Mewnol

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-689-7

Cynllun Cymorth Hunanynysu COVID-19: Adolygiad Mewnol

Nina Prosser a Jennie Mack

Adroddiad Ymchwil Llawn: Prosser, N., Mack, J.; (2022).*Cynllun Cymorth Hunanynysu COVID-19: Adolygiad Mewnol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 20/2022.>

Ar gael yn: https://llyw.cymru/y-cynllun-cymorth-hunanynysu-covid-19-adolygiad-mewnol

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Ymchwil.GwasanaethauCyhoeddus@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau ....................................................................................................2

Rhestr o dablau........................................................................................................2

Geirfa........... ...........................................................................................................3

1. Cyflwyniad.........................................................................................................4

2. Methodoleg .......................................................................................................6

3. Canfyddiadau ...................................................................................................12

4. Crynodeb..........................................................................................................22

5. Atodiad A – Cwestiynau’r Arolwg - Cymraeg..................................................23

6. Atodiad B – Taliad Cymorth Hunanynysu – Meini Prawf Cymhwysedd ..................33

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1: Datganiadau am y Taliad Hunanynysu (Pob Ymatebydd) .................................. 13
Ffigur 2: Datganiadau am y Taliad Hunanynysu (Pobl a gafodd daliad o £500) .................. 14
Ffigur 3: Datganiadau am y Taliad Hunanynysu (Pobl a gafodd daliad o £750) .................. 15
Ffigur 4: Sawl gwaith gwnaethoch adael eich cartref yn ystod y cyfnod hunanynysu? ........ 19

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Yr awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan a sampl yr arolwg ................................. 7
Tabl 2: Statws cyflogaeth yn ystod y cyfnod hunanynysu .................................................. 10
Tabl 3: Oriau wythnosol cyfartalog cyn y cyfnod hunanynysu ............................................. 11
Tabl 4: Incwm cyfartalog, ac eithrio Taliad Hunanynysu ..................................................... 11
Tabl 5: Pa wahaniaeth wnaeth y Taliad Cymorth i'ch bywyd? ............................................. 16
Tabl 6: Sut y gellid gwella’r Cynllun Cymorth? ...................................................................... 21

**Geirfa**

**Acronym/Gair allweddol**

| | |
|---|---|
| KAS | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| PHW | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| TAC | Y Gell Cyngor Technegol |
| TTP | Profi, Olrhain, Diogelu |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Gofynnodd swyddogion polisi Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS, Llywodraeth Cymru) gynnal adolygiad mewnol o Gynllun Cymorth Hunanynysu COVID-19.

1.2 Lansiwyd y Cynllun Cymorth Hunanynysu ym mis Tachwedd 2020 gyda'r nod o annog pobl i aros gartref drwy ddileu unrhyw rwystrau ariannol posibl i gydymffurfio â'r gofynion hunanynysu. Mae'r cynllun wedi'i addasu sawl gwaith i ehangu'r meini prawf cymhwysedd ac ymestyn hyd y cynllun gyda'r nod o sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen.

1.3 Roedd y cynllun ar gael i unrhyw un sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a budd-daliadau penodedig eraill a oedd yn gorfod hunanynysu ar ôl profi'n bositif am COVID-19 neu ar ôl cael gwybod gan TTP bod angen iddynt hunanynysu ar ôl dod i gysylltiad agos â rhywun a oedd wedi profi'n bositif. Penderfynwyd hefyd y byddai elfen ddewisol i'r cynllun ar gyfer y rhai nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ond a oedd yn wynebu caledi ariannol o ganlyniad i hunanynysu.

1.4 Cyflwynwyd y cynllun ym mis Tachwedd 2020 yn y lle cyntaf, a chafodd taliadau eu hôl-ddyddio a'u rhoi i unigolion cymwys rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021. Penderfynwyd mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, yn bennaf drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y byddai'r cynllun yn cael ei weinyddu a thaliadau'n cael eu dosbarthu drwy awdurdodau lleol, oherwydd y manteision ymddangosiadol o ddwyn y prif daliad hunanynysu a'r taliad dewisol ynghyd o dan yr un model cyflenwi.

1.5 Amcanion y cynllun oedd mynd i'r afael â rhwystrau i hunanynysu ymysg unigolion a oedd wedi profi'n bositif am COVID-19 neu a oedd wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun a oedd wedi profi'n bositif (fel y nodwyd gan dimau Profi, Olrhain, Diogelu (TTP)), ac sydd ar incwm isel, na fyddent yn gallu gweithio gartref ac a fyddai'n colli incwm o ganlyniad i'r gofyniad iddynt hunanynysu am y cyfnod gorfodol o bythefnos (ar y pryd)[1]. Roedd yn hysbys bod y sylfaen dystiolaeth

[1]Mae llinell amser o gyfyngiadau COVID-19 yng Nghymru

mewn perthynas ag ymyrraeth ariannol i alluogi pobl i gydymffurfio â gofynion ynysu cymdeithasol yn gyfyngedig ac yn wan. Fodd bynnag, roedd yn hysbys bod unigolion yr oedd y tîm TTP yn cysylltu â nhw yn nodi’n gyson bod cyfyngiadau ariannol neu golledion incwm yn rhwystrau i hunanynysu. O ganlyniad, penderfynwyd y byddai taliad o £500 yn cael ei gynnig i unigolion yr oedd yn ofynnol iddynt hunanynysu ac a oedd yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cynllun Cymorth Hunanynysu.

1.6 Mae'r cynllun wedi'i addasu sawl gwaith yn ystod y pandemig ac mewn ymateb i newidiadau i ofynion hunanynysu Llywodraeth Cymru. Arweiniodd cyfnodau o gyfraddau heintio uwch ar gyfer COVID-19 at gynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau i'r cynllun, a oedd yn cyd-fynd â gwaith modelu ac amcanestyniadau gan y Gell Cyngor Technegol (TAC) hyd at fis Hydref 2021. Yn ôl tystiolaeth bellach gan Beaufort Research rhwng mis Rhagfyr a mis Ionawr 2021, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)[2] ar ôl cyflwyno'r cynllun cychwynnol ym mis Tachwedd 2020, roedd y taliad o £500 a'r taliad dewisol yn gwneud gwahaniaeth i amgylchiadau ariannol pobl a oedd yn gorfod hunanynysu, ac roedd pobl yn gwerthfawrogi'r taliadau. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU am gynnydd yn lwfans personol y dreth incwm a therfyn y gyfradd sylfaenol er mwyn eu cysoni â chwyddiant ym mis Chwefror 2021[3], mynegwyd pryderon na fyddai'r taliad o £500 yn ddigon i dalu costau byw am y cyfnod hunanynysu 10 diwrnod (a ddiwygiwyd bryd hynny). Hefyd, roedd proses ymgysylltu â rhanddeiliaid dan arweiniad polisi’n awgrymu y gallai cynyddu'r swm roi mwy o sicrwydd i bobl bod modd iddynt dalu eu costau byw. Roedd diwedd y Cynllun Cadw Swyddi ym mis Medi 2021 yn golygu na fyddai rhwyd ddiogelwch ar gael i sicrhau bod cyflogwyr yn gallu rhoi gweithwyr cyflogedig ar y cynllun ffyrlo os oedd angen iddynt hunanynysu yn unol â'r rheoliadau hunanynysu. Hefyd, mynegwyd pryderon y byddai'r gostyngiad yn y taliad atodol wythnosol i Gredyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2021, gan arwain at ymgeiswyr yn wynebu diffyg yn eu hincwm wythnosol. O ganlyniad, ym mis Awst 2021, cymeradwyodd y Gweinidog

[2]McAllister, Blunt a Davies, (2022) ['Heriau ariannol sy'n gysylltiedig â hunanynysu a chanfyddiadau o'r Cynllun Cymorth Hunanynysu yng Nghymru: canfyddiadau ansoddol']. Llywodraeth Cymru.
[3]HM Treasury, Budget 2021: overview of tax legislation and rates, Mawrth 2021 (Annex A: Rates and Allowances).

Cyllid a Llywodraeth Leol gynnydd yn y taliad cymorth hunanynysu i £750, gan ymrwymo i adolygu'r cynllun ar ôl 3 mis.

1.7 Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad o Gynllun Cymorth Hunanynysu COVID-19 a gwblhawyd gan ymchwilwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (Llywodraeth Cymru). Mae'r adolygiad mewnol hwn ar raddfa fach yn cynnwys canfyddiadau sy'n deillio o arolwg ar-lein o sampl o bobl a dderbyniodd daliad o'r cynllun rhwng 1 Mehefin a 30 Tachwedd 2021.

## 2. Methodoleg

2.1 Diben yr arolwg oedd casglu profiadau a chanfyddiadau pobl sydd wedi derbyn Taliad Cymorth Hunanynysu COVID-19 a deall yn well a oedd y taliad wedi lleddfu effeithiau ariannol disgwyliedig hunanynysu, ac i ba raddau.

2.2 Datblygwyd cwestiynau'r arolwg gan ymchwilwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi mewn cydweithrediad â swyddogion polisi'r Is-adran Cymunedau a Threchu Tlodi. Defnyddiwyd Smart Survey i ddatblygu'r arolwg, sef platfform arolwg ar-lein sy'n caniatáu i gyfranogwyr gwblhau arolygon trwy ddefnyddio ffôn symudol, llechen neu gyfrifiadur. Rhannwyd yr arolwg drafft gyda phedwar awdurdod lleol er mwyn derbyn adborth ganddynt. Roedd pob un ohonynt yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun yn eu hardal leol. Dosbarthwyd offeryn yr arolwg drafft hefyd ymysg yr ymchwilwyr cymdeithasol a'r swyddogion polisi a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect er mwyn profi ymarferoldeb a llif platfform a dyluniad yr arolwg. Cafodd yr arolwg ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac roedd yn cynnwys taflen ddwyieithog i gyfranogwyr, Cwestiynau Cyffredin a hysbysiad preifatrwydd, a gellid ei gwblhau naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.3 Cydnabuwyd y byddai cyfranogiad pob un o'r 22 awdurdod lleol yn rhoi'r Cynllun Cymorth Hunanynysu o dan bwysau sylweddol, gan effeithio ar y gallu i wneud taliadau prydlon. Er mwyn cynorthwyo, cytunodd rhai awdurdodau lleol a oedd yn aelodau o'r Grŵp Llywio Taliadau Cymorth Hunanynysu i gymryd rhan. Cymerodd pedwar awdurdod lleol ran yn y gwaith ymchwil, sef Caerdydd, Ceredigion,

Rhondda Cynon Taf a Wrecsam. Datblygwyd y sampl fwriadus i gynnwys cymysgedd o boblogaethau gwledig a threfol, a oedd yn amrywio’n ieithyddol. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol ddosbarthu templed e-bost dwyieithog i sampl o bobl a oedd wedi derbyn y Taliad Cymorth Hunanynysu yn eu gwahodd i gwblhau'r arolwg. Nodir yr awdurdodau lleol a oedd yn rhan o sampl yr arolwg yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Yr awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan a sampl yr arolwg**

| Awdurdod Lleol | Nifer y gwahoddiadau a anfonwyd at gyfranogwyr |
|---|---:|
| Caerdydd | 500 |
| Ceredigion | 405 |
| Rhondda Cynon Taf | 780 |
| Wrecsam | 550 |
| **Cyfanswm:** | **2,235** |

2.4 Anfonwyd cyfanswm o 2,235 o wahoddiadau i gymryd rhan yn yr arolwg at bobl a oedd yn derbyn y Taliad Cymorth. Roedd nifer y gwahoddiadau a anfonwyd ym mhob awdurdod lleol yn amrywio gan fod y galw am Daliadau Cymorth yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Roedd yr arolwg yn fyw i'w gwblhau am gyfnod o bum wythnos rhwng 15 Tachwedd a 20 Rhagfyr 2021.

2.5 Derbyniwyd 222 o ymatebion, ac roedd 144 wedi'u cwblhau'n llawn a 78 wedi'u cwblhau'n rhannol. Cafodd 27 o ymatebion eu heithrio o'r dadansoddiad oherwydd eu bod wedi'u dyblygu (nodwyd hynny trwy edrych ar gyfeiriad IP y sawl a oedd yn ymateb) neu oherwydd nad oedd y cyfranogwr wedi ateb unrhyw un o'r cwestiynau. Cafodd cyfanswm o 195 o ymatebion i'r arolwg eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 8.7 y cant. Nid yw data'r arolwg yn dangos ardal yr awdurdod lleol yr oedd pob ymatebydd yn preswylio ynddi, felly ni ellir nodi dosbarthiad daearyddol yr ymatebion.

2.6 O ystyried y sampl fach, a'r gyfradd ymateb isel, mae'n bwysig cydnabod y cyfyngiadau sy'n berthnasol i ddata'r arolwg hwn. Nid oes modd ystyried y data fel data sy'n gynrychioladol o'r boblogaeth sydd wedi derbyn cymorth gan y Cynllun

Cymorth Hunanynysu neu'n gynrychioladol o boblogaeth o drigolion a allai fod wedi elwa fwyaf o gymorth ychwanegol yn ystod y pandemig COVID-19. Dylid trin y canfyddiadau fel rhai dangosol yn unig.

2.7 Mae'n bosibl bod data'r arolwg hwn wedi'i gyfyngu gan duedd diffyg ymateb. Er eu bod yn derbyn cymorth gan y Cynllun Cymorth Hunanynysu, mae'n bwysig ystyried y gallai unigolion na wnaethant hunanynysu fod yn amharod i ymateb i'r arolwg. Gallai ffactorau eraill fod wedi dylanwadu ar nifer yr ymatebion a phroffil yr ymatebwyr hefyd, gan gynnwys cwestiynau am gyllid personol a rhagdybiaethau y gallai cymryd rhan yn yr arolwg gael effaith ar gymhwysedd i dderbyn cymorth yn y dyfodol. Cafodd y ffactorau hyn eu lliniaru gymaint â phosibl yn y wybodaeth a ddarparwyd i gyfranogwyr, ond ni ellid eu dileu'n gyfan gwbl.

2.8 Mae'n bosibl y byddai rhai ymatebwyr i'r arolwg wedi teimlo ei bod yn ddymunol yn gymdeithasol ymateb i gwestiynau mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ffafriol gan eraill, megis cydymffurfio â gofynion hunanynysu. Gall hyn arwain at rywfaint o or-adrodd ymddygiad dymunol. Dylai arolygon ar-lein fel hyn leihau ymatebion sy'n ddymunol yn gymdeithasol o'u cymharu â chyfweliadau wyneb yn wyneb gan fod yr ymatebion i'r arolwg yn ddienw. Fodd bynnag, o ystyried pwnc y gwaith ymchwil, ni ellir lliniaru'r duedd hon yn gyfan gwbl.

2.9 Mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Yr unig gwestiwn gorfodol yn yr arolwg oedd y cwestiwn cyntaf, a oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi faint o arian a gawsant o'u Taliad Cymorth Hunanynysu. Roedd y cwestiynau eraill yn ddewisol gan eu bod yn ymwneud â chyllid personol, pwnc na fyddai cyfranogwyr wedi bod yn fodlon ymateb iddo o reidrwydd, yn enwedig unigolion sy'n wynebu caledi ariannol.

**Proffil y Cyfranogwyr**

2.10 Gan dderbyn y cyfyngiadau a amlinellir uchod, mae data'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr rhwng 35 a 44 oed (26 y cant), wedyn rhwng 25 a 34

oed (17 y cant), 45 a 54 oed (13 y cant), 18 a 24 oed (11 y cant), 55 a 64 oed (7 y cant) a 65 oed neu'n hŷn (1 y cant).[4]

2.11 Nid oedd y sampl yn gyfartal o ran rhyw; nododd 51 y cant eu bod yn fenywod a 24 y cant yn ddynion.

2.12 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (67 y cant) yn perthyn i grŵp ethnig Gwyn, ac roedd 3 y cant yn nodi eu bod yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig, 2 y cant yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig, 1 y cant yn perthyn i grŵp ethnig Cymysg neu Aml-ethnig ac 1 y cant yn perthyn i unrhyw grŵp ethnig arall.

2.13 Dywedodd 17 y cant o'r cyfranogwyr fod ganddynt anabledd. O safbwynt effaith yr anabledd ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd, dywedodd 11 y cant ei fod yn effeithio arnynt ychydig, nododd 3 y cant ei fod yn cael llawer o effaith, a dywedodd 3 y cant nad oedd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

2.14 Gan fod y Cynllun Cymorth Hunanynysu wedi'i fwriadu ar gyfer unigolion a fyddai o dan anfantais ariannol drwy orfod hunanynysu, gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth am eu hamgylchiadau cyflogaeth.

2.15 Roedd dros draean (34 y cant) o'r cyfranogwyr yn cael eu cyflogi'n rhan-amser, ac roedd 29 y cant yn cael eu cyflogi'n llawn amser. Roedd 13 y cant o'r sampl yn hunangyflogedig. Roedd yr ymatebwyr a ddewisodd 'arall' i'r cwestiwn hwn yn cynnwys pobl sy'n gwneud gwaith i asiantaeth, staff cyflenwi a staff banc (Tabl 2).

[4]Ni atebodd 25 y cant o'r ymatebwyr gwestiynau yn ymwneud ag oedran, rhywedd, ethnigrwydd na statws anabledd.

**Tabl 2: Statws cyflogaeth yn ystod y cyfnod hunanynysu**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Cyflogedig yn llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 29 |
| Cyflogedig yn rhan-amser (llai na 35 awr yr wythnos) | 34 |
| Cyflogedig yn llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos), ond ar ffyrlo | 1 |
| Cyflogedig yn rhan-amser (llai na 35 awr yr wythnos), ond ar ffyrlo | 2 |
| Hunangyflogedig | 13 |
| Arall | 3 |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 18 |

Sylfaen: 195 o ymatebwyr.

2.1 O'r 128 o ymatebwyr a nododd eu bod yn gyflogedig, roedd 16 y cant yn cael eu cyflogi o dan gontract dim oriau, tra bod 3 y cant wedi dewis yr ateb 'Ddim yn gwybod'. Yn y cyd-destun hwn, diffiniwyd contract dim oriau fel contract lle nad oes gan yr unigolyn sicrwydd y bydd yn gweithio isafswm oriau bob wythnos, a'i fod yn cael ei dalu am nifer yr oriau y mae'n gweithio yn unig.[5]

2.2 Er mwyn deall mwy am amgylchiadau cyflogaeth pobl a oedd yn derbyn y Taliad Hunanynysu, gofynnwyd i ymatebwyr nodi faint o oriau o waith cyflogedig a gwblhawyd ganddynt mewn wythnos gyfartalog, cyn eu cyfnod hunanynysu.

2.3 Fel y dangosir yn Nhabl 3, roedd oriau gwaith yr ymatebwyr yn amrywio, a'r oriau mwyaf cyffredin oedd 31-40 awr yr wythnos. Roedd oriau gwaith 7 y cant o ymatebwyr yn amrywio'n sylweddol o wythnos i wythnos.

[5] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) 'Contracts that do not guarantee a minimum number of hours: April 2018' Contracts that do not guarantee a minimum number of hours - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

**Tabl 3**: **Oriau wythnosol cyfartalog cyn y cyfnod hunanynysu**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Llai na 10 awr | 4 |
| 11–20 awr | 10 |
| 21–30 awr | 18 |
| 31–40 awr | 21 |
| Mwy na 10 awr | 16 |
| Roedd fy oriau gwaith yn amrywio'n sylweddol o wythnos i wythnos | 7 |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 24 |

Sylfaen: 195 o ymatebwyr.

2.4 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi cyfanswm eu hincwm personol o bob ffynhonnell, ac eithrio'r Taliad Hunanynysu roeddent wedi'i dderbyn. Gofynnwyd iddynt nodi eu hincwm gros, a chynnwys tâl ffyrlo os oeddent ar ffyrlo ar y pryd. Nid oedd cwestiynau'n ymwneud ag incwm personol yn orfodol, ac roedd gan gyfranogwyr yr opsiwn i ddewis 'byddai'n well gennyf beidio â dweud'. Fel y dangosir yn Nhabl 4, roedd incwm dros hanner yr ymatebwyr (59 y cant) yn llai nag £20,800 y flwyddyn.

**Tabl 4**: **Incwm cyfartalog, ac eithrio Taliad Hunanynysu**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Llai na £200 yr wythnos / llai na £870 y mis / llai na £10,400 y flwyddyn | 31 |
| £200 i £399 yr wythnos / £870 i £1,729 y mis / £10,400 i £20,799 y flwyddyn | 28 |
| £400 i £599 yr wythnos / £1,730 i £2,599 y mis / £20,800 i £31,099 y flwyddyn | 7 |
| £600 i £799 yr wythnos / £2,600 i £3,459 y mis / £31,100 i £41,499 y flwyddyn | 1 |
| £800 neu fwy yr wythnos / £3,460 neu fwy y mis / £41,500 neu fwy y flwyddyn | 0 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 27 |

Sylfaen: 195 o ymatebwyr

## 3. Canfyddiadau

3.1 Cynyddodd y Taliad Cymorth o £500 i £750 ar 9 Awst 2021. Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr nodi a oeddent wedi derbyn Taliad Hunanynysu gwerth £500 neu £750. Roedd hanner yr ymatebwyr wedi derbyn £500, a'r hanner arall wedi derbyn £750.

**Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod y taliad a gawsant wedi'u galluogi i hunanynysu a'u hatal rhag mynd i ddyled. Cytunodd ychydig yn llai na thraean o'r ymatebwyr na fyddent wedi hunanynysu heb y taliad, a chytunodd un o bob pump na fyddent wedi hunanynysu pe bai'r taliad yn llai na'r swm a gawsant.**

3.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y Taliad Hunanynysu a gawsant:


- Gwnaeth y Taliad Hunanynysu a gefais fy ngalluogi i hunanynysu.
- Ni fyddwn i wedi hunanynysu heb gael Taliad Hunanynysu.
- Ni fyddwn i wedi hunanynysu os oedd y Taliad Hunanynysu yn llai na'r hyn a gefais.
- Gwnaeth y Taliad Hunanynysu a gefais fy atal rhag mynd i ddyled.
- Gwnaeth y Taliad Hunanynysu a gefais fy atal rhag mynd i fwy o ddyled.

3.3 Fel y dangosir yn Ffigur 1, cytunodd tua naw o bob deg ymatebydd (88 y cant) fod y taliad a gawsant wedi'u galluogi i hunanynysu. Cytunodd bron i draean o'r ymatebwyr na fyddent wedi hunanynysu pe na baent wedi derbyn taliad hunanynysu, a chytunodd un o bob pum ymatebydd (20 y cant) na fyddent wedi hunanynysu pe bai'r taliad yn llai na'r swm a gawsant.

O safbwynt effeithiau ar gyllid ymatebwyr, cytunodd y rhan fwyaf (78 y cant) fod y taliad a gawsant wedi'u hatal rhag mynd i ddyled, a chytunodd dwy ran o dair (67 y cant) fod y taliad wedi'u hatal rhag mynd i fwy o ddyled. Anghytunodd 22 y cant o'r ymatebwyr â'r datganiadau hyn yn ymwneud â dyled, ond nid yw'n glir a yw hyn yn golygu nad oedd y taliad a gawsant yn ddigon i osgoi mynd i ddyled, neu nad oedd

yr unigolion mewn perygl o fynd i ddyled.


**Ffigur 1: Datganiadau am y Taliad Hunanynysu (Pob Ymatebydd)**




Sylfaen: 195 o ymatebwyr.
Mae'r categori 'Cytuno' yn cynnwys 'Cytuno'n gryf' a 'Cytuno'; mae'r categori 'Anghytuno' yn cynnwys 'Anghytuno'n gryf' ac 'Anghytuno'.
Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb y cwestiynau hyn, felly nid yw'r barrau yn adio i 100%.

3.4 Fel y dangosir yn Ffigurau 2 a 3 isod, wrth gymharu ymatebion pobl a gafodd daliadau £500 neu £750, cytunodd canran fwy o ymatebwyr a gafodd daliad £500 (25 y cant) na fyddent wedi hunanynysu pe bai'r taliad yn llai na'r swm a gawsant, o'i gymharu â 15 y cant o'r rhai a gafodd daliad o £750. Cytunodd 81 y cant o'r rhai a gafodd daliad o £750 fod y taliad wedi'u hatal rhag mynd i ddyled, o'i gymharu â 75 y cant o'r rhai a gafodd £500.

**Ffigur 2: Datganiadau am y Taliad Hunanynysu (Pobl a gafodd daliad o £500)**





Sylfaen: 98 o ymatebwyr.

Mae'r categori 'Cytuno' yn cynnwys 'Cytuno'n gryf' a 'Cytuno'; mae'r categori 'Anghytuno' yn cynnwys 'Anghytuno'n gryf' ac 'Anghytuno'.

Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb y cwestiynau hyn, felly nid yw'r barrau yn adio i 100%.

**Ffigur 3: Datganiadau am y Taliad Hunanynysu (Pobl a gafodd daliad o £750)**




Sylfaen: 99 o ymatebwyr.

Mae'r categori 'Cytuno' yn cynnwys 'Cytuno'n gryf' a 'Cytuno'; mae'r categori 'Anghytuno' yn cynnwys 'Anghytuno'n gryf' ac 'Anghytuno'.

Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb y cwestiynau hyn, felly nid yw'r barrau yn adio i 100%.

### Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr bod y Taliad Cymorth wedi'u helpu i dalu eu biliau yn ystod y cyfnod hunanynysu.

3.5 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr egluro'r gwahaniaeth roedd y cymorth ariannol a gawsant wedi'i wneud i'w bywydau. Atebodd 154 o gyfranogwyr y cwestiwn agored hwn, ac fe gafodd yr ymatebion eu codio drwy ddefnyddio meddalwedd dadansoddi ansoddol MAXQDA. Mae Tabl 5 isod yn cyflwyno categorïau'r atebion a gafwyd a chanran yr ymatebwyr a gyflwynodd yr ateb hwn.

**Tabl 5: Pa wahaniaeth wnaeth y Taliad Cymorth i'ch bywyd?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Wedi fy helpu i dalu biliau | 34 |
| Wedi fy helpu gyda chostau bwyd | 22 |
| Wedi lleihau straen neu bryderon | 8 |
| Wedi darparu arian yn lle cyflog a gollwyd | 8 |
| Wedi fy atal rhag mynd i ddyled | 6 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o ymatebwyr[a]** | |
| Gallu trefnu bod yr archfarchnad yn danfon bwyd i'r cartref | |
| Gallu prynu meddyginiaeth | |
| Gallu gofalu am blant | |
| Gallu byw bywyd fel arfer | |
| Gallu talu i aelodau'r teulu/ffrindiau ddanfon bwyd | |
| Cael amser i wella ar ôl bod yn sâl | |
| Wedi osgoi defnyddio cynilion | |
| Gallu fforddio danteithion | |
| Gallu fforddio costau cerbyd sydd ei angen i fynd i'r gwaith | |
| Gallu talu am gynhaliaeth plant | |
| Yn teimlo bod cefnogaeth ar gael | |
| Diogelwch ariannol | |
| Wedi helpu i dalu am weithgareddau i'r plant | |
| Wedi helpu gyda newid yn amgylchiadau'r teulu | |
| Wedi helpu gyda chostau gofal plant | |
| Wedi gwneud iawn am y costau uwch o fod gartref | |
| Wedi amddiffyn fy iechyd meddwl | |
| Wedi rhannu'r arian gydag eraill a oedd yn hunanynysu ar yr aelwyd | |

[a] Mae ymatebion 'eraill' wedi'u cyflwyno yn nhrefn yr wyddor yn y fersiwn Saesneg. Sylfaen: 154 o ymatebwyr.

3.6 Y fantais fwyaf cyffredin a nodwyd gan tua thraean o'r ymatebwyr (34 y cant) oedd y ffaith fod y Taliad Cymorth wedi eu helpu i dalu eu biliau. Nododd 22 y cant o'r ymatebwyr fod y Taliad Cymorth wedi'u helpu i dalu am fwyd. Nododd 8 y cant o'r ymatebwyr fod y Taliad Cymorth wedi lleihau lefelau straen a phryderon, a'i fod wedi cymryd lle cyflog a gollwyd. Dywedodd 6 y cant o'r ymatebwyr fod y taliad wedi'u hatal rhag mynd i ddyled.

3.7 Nododd nifer fach o ymatebwyr (3 y cant) nad oedd y Taliad Cymorth a gawsant yn ddigon i gymryd lle’r enillion a gollwyd. Ni wnaeth 2 y cant o’r ymatebwyr nodi mantais benodol y taliad, ond roeddent yn ddiolchgar am y taliad a gawsant.

3.8 Gofynnwyd i’r holl ymatebwyr a oedd y Taliad Cymorth Hunanynysu a gawsant wedi’u galluogi i dderbyn cymorth o ffynonellau eraill. Ychydig iawn o atebion a gafwyd i’r cwestiwn hwn, ond roedd y rhai a ddaeth i law yn nodi bod y Taliad Cymorth wedi’u galluogi i gael cymorth o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyswllt gan eu meddygfa, trefnu i ddanfon bwyd i’r cartref, cymorth gan gymdogion a chymorth i gynnal eu busnes yn ystod y cyfnod hunanynysu.

3.9 Nododd 44 y cant o’r ymatebwyr nad oeddent wedi llwyddo i gael gafael ar fathau eraill o gymorth. Gofynnwyd i’r ymatebwyr hyn a oedd unrhyw ffynonellau cymorth yr oedd eu hangen arnynt ond nad oeddent wedi llwyddo i gael gafael arnynt. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys: blaenoriaeth ar gyfer danfoniadau bwyd i’r cartref, rhagor o gysylltiad gan y system Profi ac Olrhain ar ôl y cyswllt cyntaf, cymorth gyda’r dreth gyngor, disodli ffioedd gofal plant, cyngor ar sut i apelio yn erbyn canlyniad cais i’r Cynllun Cymorth Hunanynysu, a chynllun cymhorthdal incwm ar gyfer yr hunangyflogedig. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr a ymatebodd i’r cwestiwn hwn nad oedd angen unrhyw beth arall arnynt.

**Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent wedi colli arian o ganlyniad i hunanynysu, roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai a oedd wedi colli arian a’r rhai nad oeddent wedi colli arian. Nododd dros hanner y rhai a gafodd y taliad £500 eu bod wedi colli arian o ganlyniad i hunanynysu, o’i gymharu ag ychydig yn llai na chwarter y rhai a gafodd y taliad £750.**

3.10 Gofynnwyd i’r holl ymatebwyr a oedd eu hincwm wedi lleihau o ganlyniad i orfod hunanynysu, gan ystyried y Taliad Hunanynysu a gawsant. Roedd yr ymatebion wedi’u rhannu’n gyfartal rhwng y rhai a oedd wedi colli arian (39 y cant) a’r rhai nad oeddent wedi colli arian (37 y cant). Ni atebodd 24 y cant o’r cyfranogwyr y cwestiwn hwn.

3.11 Wrth gymharu ymatebion gan bobl a gafodd y taliadau £500 a £750, nododd 55 y cant o'r rhai a gafodd y taliad £500 eu bod wedi colli arian o ganlyniad i hunanynysu, a nododd 23 y cant o'r rhai a gafodd y taliad £750 eu bod wedi colli arian o ganlyniad i hunanynysu.


3.12 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod wedi colli arian faint o arian roedden nhw wedi'i golli o ganlyniad i hunanynysu. Ni chyfeiriodd rhai ymatebwyr at swm penodol, ond dywedodd rhai eu bod wedi colli: 'cyflog wythnos o leiaf', 'cyflog pythefnos', 'cryn dipyn', neu 'llawer – methu nodi swm penodol'.

3.13 Roedd rhai ymatebwyr wedi nodi iddynt golli swm penodol o arian, yn amrywio o £100 i £3,200. Rhoddodd ymatebwyr ystod o werthoedd, e.e. '£200-300'. Y swm mwyaf cyffredin oedd £300. Mae'r ystod eang yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at gyfanswm eu colledion a oedd yn deillio o gyfnodau lluosog o hunanynysu, neu gyfnodau hir o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i symptomau COVID. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y cwestiwn wedi'i ddehongli'n gyson, sy'n cyfyngu ar ddibynadwyedd y canfyddiadau. Mae'n bosibl bod y ffigurau hyn yn llai dibynadwy hefyd oherwydd methiant yr ymatebwyr i gofio'r ffigurau yn gywir. Nid oedd y fethodoleg yn golygu y gellid dilysu cywirdeb y ffigurau hyn.

### Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na wnaethant adael eu cartref o gwbl yn ystod eu cyfnod hunanynysu.

3.14 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr nodi sawl gwaith roeddent wedi gadael eu cartref yn ystod y cyfnod hunanynysu. Fel y gwelir yn Ffigur 4, nododd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (70 y cant) na wnaethant adael eu cartref o gwbl. Nododd 7 y cant eu bod wedi gadael eu cartref unwaith neu ddwy, ac roedd eu rhesymau yn cynnwys: siopa ar gyfer eitemau hanfodol, ymarfer corff, gofalu am anifeiliaid anwes a phrofion COVID.

**Ffigur 4: Sawl gwaith y gwnaethoch adael eich cartref yn ystod y cyfnod hunanynysu?**




Sylfaen: 195 o ymatebwyr.

3.15 Fel y trafodwyd yn Adran 2, mae'n debygol bod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u heffeithio gan duedd, gan y gallai ymatebwyr fod wedi teimlo o dan bwysau i roi ateb sy'n dangos eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r rheolau'n ymwneud â hunanynysu. O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw'r canlyniadau'n adlewyrchiad cywir o'r lefelau o gydymffurfiaeth. Hefyd, mae'n bosibl bod lefelau'r cyfyngiadau a oedd ar waith a chanfyddiad y cyhoedd o lefel y risg pan oedd yr ymatebwyr yn hunanynysu wedi dylanwadu ar yr ymatebion i'r cwestiwn, gan fod y ffactorau hyn wedi newid yn ystod y pandemig COVID-19. Oherwydd cyfyngiadau'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ynglŷn â'r cysylltiad rhwng derbyn Taliad Cymorth Hunanynysu a chydymffurfio â'r rheolau hunanynysu.

**Cafwyd adborth cadarnhaol gan dros chwarter yr ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella'r Cynllun Cymorth, a dywedodd 12 y cant nad oedd angen unrhyw newidiadau. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ar gyfer gwella'r cynllun oedd sicrhau bod y taliadau'n cael eu gwneud yn gyflymach, a chynyddu swm y taliadau.**

3.16 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr sut y gellid gwella'r Cynllun Cymorth Hunanynysu. Cafwyd 132 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Fel y dangosir yn Nhabl 6, cafwyd adborth cadarnhaol ar y cynllun gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (27 y cant), er enghraifft:

'Mae'n wych fel y mae! Fe wnaeth e helpu llawer!'

'Roedd yn berffaith i mi. Ro'n i'n methu credu'r peth a dweud y gwir.'

3.17 Dywedodd 12 y cant o ymatebwyr nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r cynllun. Awgrymodd 6 y cant o ymatebwyr y gellid gwneud y taliadau'n gynt a chynyddu swm y taliadau.

3.18 Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Taliad Cynllun Hunanynysu wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

**Tabl 6: Sut y gellid gwella'r Cynllun Cymorth?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---|
| Adborth cadarnhaol | 27 |
| Nid oes angen unrhyw newidiadau | 12 |
| Ddim yn siŵr | 6 |
| Taliadau cyflymach | 6 |
| Cynyddu swm y taliad | 6 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o ymatebwyr [b]** | |
| Derbyn mwy o fathau o dystiolaeth am yr angen i hunanynysu | |
| Caniatáu taliadau lluosog | |
| Cadarnhau bod cais wedi'i dderbyn | |
| Lleihau'r swm | |
| Ehangu cymhwysedd | |
| Ymestyn y taliadau i bawb ar yr aelwyd sy'n hunanynysu | |
| Cymeradwyo neu wrthod cais yn gyflymach | |
| Treth gyngor am ddim yn ystod cyfnod hunanynysu | |
| Roedd angen gwneud sawl cais cyn derbyn cymeradwyaeth | |
| Cymorth gyda siopa a chael gafael ar feddyginiaeth | |
| Cynnwys staff y GIG | |
| Nodi'r dogfennau sydd eu hangen yn y dystiolaeth yn glir o'r cychwyn cyntaf | |
| Gwneud y taliad yn ddi-dreth | |
| Hysbysebu'r cynllun yn well | |
| Mwy o gyfleoedd i gyfathrebu â'r cyngor | |
| Mwy o opsiynau i apelio yn erbyn penderfyniad | |
| Dylai'r taliad fod yn £750 i bawb | |
| Lleihau nifer y dogfennau sydd eu hangen yn y dystiolaeth | |
| Gofyn am fwy o dystiolaeth gan fod rhai pobl yn cam-fanteisio ar y system | |
| Dylai'r cynllun fod wedi'i gyflwyno'n gynharach | |
| Dylai achosion lle mae plant yn gorfod hunanynysu fod yn gymwys | |
| Symleiddio'r broses | |
| Teilwra swm y taliad i'r unigolyn | |

Sylfaen: 132 o ymatebwyr

## 4. Crynodeb

1. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn teimlo bod y taliad a gawsant wedi’u galluogi i hunanynysu ac wedi’u hatal rhag mynd i ddyled. Roedd ychydig yn llai na thraean o’r ymatebwyr yn cytuno na fyddent wedi hunanynysu heb y taliad, ac roedd un o bob pump yn cytuno na fyddent wedi hunanynysu pe bai’r taliad yn llai na’r swm a gawsant.
2. Dywedodd dros draean o’r ymatebwyr fod y Taliad Cymorth wedi’u helpu i dalu eu biliau yn ystod y cyfnod hunanynysu.
3. Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent wedi colli arian o ganlyniad i hunanynysu, roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai a oedd wedi colli arian a’r rhai nad oeddent wedi colli arian. Nododd dros hanner y rhai a gafodd y taliad £500 eu bod wedi colli arian o ganlyniad i hunanynysu, o’i gymharu ag ychydig yn llai na chwarter o’r rhai a gafodd y taliad £750.
4. Nododd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr na wnaethant adael eu cartref o gwbl yn ystod y cyfnod hunanynysu, er nad oes modd dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn â’r cysylltiad rhwng derbyn Taliad Cymorth Hunanynysu a chydymffurfio â rheolau hunanynysu.
5. Cafwyd adborth cadarnhaol gan dros chwarter yr ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella’r Cynllun Cymorth, a dywedodd 12 y cant nad oedd angen unrhyw newidiadau. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ar gyfer gwella’r cynllun oedd sicrhau bod y taliadau’n cael eu gwneud yn gyflymach, a chynyddu swm y taliadau.

## 5. Atodiad A – Cwestiynau'r Arolwg

1. Faint gawsoch chi o'ch Taliad Cymorth Hunanynysu COVID-19?

*Nodwch fod y Taliad Cymorth wedi cynyddu i £750 o 9 Awst 2021. **

- ☐ £500
- ☐ £750

2. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol:

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno Nac yn Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwnaeth y Taliad Hunanynysu a gefais fy ngalluogi i hunanynysu. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ni fyddwn i wedi hunanynysu heb gael Taliad Hunanynysu. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ni fyddwn i wedi hunanynysu os oedd y Taliad Hunanynysu yn llai na'r hyn a gefais. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwnaeth y Taliad Hunanynysu a gefais fy atal rhag mynd i ddyled. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwnaeth y Taliad Hunanynysu a gefais fy atal rhag mynd i fwy o ddyled. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

3. Pa wahaniaeth wnaeth y cymorth ariannol a gawsoch i'ch bywyd?

*Er enghraifft, disgrifiwch unrhyw effaith ar allu talu biliau, prynu bwyd a phrynu pethau hanfodol eraill.*

4. A wnaeth y cymorth ariannol a gawsoch eich galluogi i gael gafael ar fathau eraill o gymorth?

- [ ] Do
- [ ] Naddo
- [ ] Ddim yn gwybod

5. Pa wasanaethau cefnogol a gawsoch fynediad i?

6. A oedd yna unrhyw ddull o gefnogaeth a oeddych angen ond methu cael mynediad i?

7. Yn ystod eich cyfnod hunanynysu, sawl gwaith y gwnaethoch adael y cartref?

- ☐ Ddim o gwbl
- ☐ Unwaith neu ddwy
- ☐ Ar tri neu fwy achlysur

8. Pam y gwnaethoch adael y cartref? Dewiswch bob un sy'n gymwys:

- ☐ Siopa am bethau hanfodol
- ☐ Siopa am bethau nad oeddent yn hanfodol
- ☐ Gwaith
- ☐ Addysg
- ☐ Ymarfer corff
- ☐ Gweld teulu neu ffrindiau
- ☐ Gofalu am anifeiliaid anwes
- ☐ Arall, nodwch:

9. Sut y gallai'r cynllun Taliadau Hunanynysu COVID-19 gael ei wella?

10. Yn ystod eich cyfnod hunanynysu, beth oedd eich statws cyflogaeth?

- ☐ Gweithio'n llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos)
- ☐ Gweithio'n rhan amser (llai na 35 awr yr wythnos)
- ☐ Gweithio'n llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos), ond ar ffyrlo
- ☐ Gweithio'n rhan amser (llai na 35 awr yr wythnos), ond ar ffyrlo
- ☐ Hunan-gyflogedig
- ☐ Arall, nodwch:

11. A oeddech wedi'ch cyflogi dan gontract dim oriau?

*Mae contract dim oriau yn golygu nad oes sicrwydd y byddwch yn gweithio isafswm o oriau bob wythnos, a dim ond cael eich talu am nifer yr oriau a weithir a wneir.*

- ☐ Oeddwn
- ☐ Nac oeddwn
- ☐ Ddim yn gwybod

12. Cyn i chi hunanynysu, mewn wythnos gyffredin, faint o oriau o waith â thâl roeddech yn ei wneud?

- ☐ Llai na 10 awr
- ☐ 11-20 awr
- ☐ 21-30 awr
- ☐ 31-40 awr
- ☐ Mwy na 40 awr
- ☐ Roedd fy oriau gwaith yn amrywio'n fawr o wythnos i wythnos

13. Ac eithrio'r Taliad Hunanynysu a gawsoch, yn ystod eich cyfnod hunanynysu, beth oedd cyfanswm eich incwm personol o bob ffynhonnell?

*Nodwch eich incwm gros, llai unrhyw ddidyniadau treth, yswiriant gwladol neu gyfraniad pensiwn.*

*Os oeddech ar ffyrlo yn ystod y cyfnod hwn, nodwch eich incwm ar ffyrlo.*

- [ ] Llai na £200 yr wythnos/ llai na £870 y mis/ llai na £10,400 y flwyddyn
- [ ] £200 i £399 yr wythnos/ £870 i £1,729 y mis/ £10,400 i £20,799 y flwyddyn
- [ ] £400 i £599 yr wythnos/ £1,730 i £2,599 y mis/ £20,800 i £31,099 y flwyddyn
- [ ] £600 i £799 yr wythnos/ £2,600 i £3,459 y mis/ £31,100 i £41,499 y flwyddyn
- [ ] £800 neu fwy yr wythnos/ £3,460 neu fwy y mis/ £41,500 neu fwy y flwyddyn
- [ ] Ddim yn gwybod
- [ ] Byddai'n well gennyf beidio â dweud

14. Gan ystyried y Taliad Hunanynysu a gawsoch a phob ffynhonnell arall o incwm, a oedd eich incwm yn llai am eich bod wedi gorfod hunanynysu?

- [ ] Oedd
- [ ] Nac oedd

15. Faint yn llai oedd hyn am eich bod wedi gorfod hunanynysu?

16. Beth yw eich oedran?

- [ ] 18-24
- [ ] 25-34

- [ ] 35-44
- [ ] 45-54
- [ ] 55-64
- [ ] 65 neu'n hŷn
- [ ] Byddai'n well gennyf beidio â dweud

17. Beth yw eich rhyw?

- [ ] Gwryw
- [ ] Benyw
- [ ] Arall
- [ ] Byddai'n well gennyf beidio â dweud

18. Beth yw eich grŵp ethnig?
Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich grŵp ethnig neu gefndir.

- [ ] Gwyn
- [ ] Grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig
- [ ] Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- [ ] Du neu Ddu Prydeinig
- [ ] Unrhyw grŵp ethnig arall

☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud

19. Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig?

☐ Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig

☐ Gwyddelig

☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifiwch

20. Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig?

☐ Gwyn a Du Caribïaidd

☐ Gwyn a Du Affricanaidd

☐ Gwyn ac Asiaidd

☐ Unrhyw gefndir Cymysg neu Aml-ethnig arall, nodwch:

21. Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig?

☐ Indiaidd

☐ Pacistanaidd

☐ Bangladeshaidd

☐ Tsieineaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch:

22. Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig?

☐ Affricanaidd

☐ Caribïaidd

☐ Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall, nodwch:

23. Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig?

☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall, nodwch:

24. A oes gennych unrhyw salwch neu gyflwr corfforol neu iechyd meddwl sy'n para neu y mae disgwyl iddo bara 12 mis neu fwy?

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud

25. A yw unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych yn effeithio ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau bob dydd?

- ☐ Ydy, i raddau helaeth
- ☐ Ydy, rhywfaint
- ☐ Ddim o gwbl
- ☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud

26. A fyddwch yn fodlon i ni ailgysylltu am ymchwil yn y dyfodol?

*Bydd cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol medru bod o gymorth i oleuo polisi Llywodraeth Cymru. Os byddwn yn ailgysylltu ni fydd rhwymedigaeth i gymryd rhan.*

- ☐ Byddaf
- ☐ Ni fyddaf

27. Diolch yn fawr am ddatgan diddordeb mewn cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol.
Rhowch eich manylion cyswllt:

| | |
|---|---|
| Enw Cyntaf: | |
| Cyfenw: | |
| Cyfeiriad E-bost: | |

## 6. Atodiad B – Taliad Cymorth Hunanynysu – Cymhwysedd

### Crynodeb

Mae'r cynllun taliadau hunanynysu ar gyfer gweithwyr na all weithio o'r cartref ac sydd rhaid hunanynysu. Mae hefyd ar gyfer rhieni a gofalwyr hefo plant sydd yn hunanynysu.

Rhaid ichi fod mewn gwaith (yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) i gael y taliad ac mae gofyn ichi hawlio o fewn 21 diwrnod i ddiwrnod diwethaf eich cyfnod hunanynysu.

Ni ddylent effeithio ar eich budd-daliadau.

**Pwy sy'n gymwys**

Mae'n rhaid i chi gael un o'r canlynol:

- wedi adrodd prawf llif unffordd positif (LFT) o fewn 24 awr o gael y canlyniad
- wedi cael canlyniad prawf PCR positif
- wedi cael cyngor gan Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru (TTP) i hunanynysu

Os ydych yn cael gwybod bod angen i chi hunanynysu drwy ap COVID-19 y GIG, ni fyddwch yn gymwys heblaw fod TTP yn dweud bod angen i chi hunanynysu.

Cyn y cyfnod hunanynysu mae rhaid eich bod:

- yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig
- methu gweithio o gartref ac yn colli incwm o ganlyniad i'r hunanynysu
- yn hawlio un o'r budd-daliadau canlynol:
  - Credyd Cynhwysol
  - Credyd Treth Gwaith
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
  - Cymhorthdal Incwm
  - Budd-dal Tai
  - Credyd Pensiwn ag/neu

- Os nad ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau, efallai byddwch yn gymwys os oes dyfarniad wedi ei wneud eich bod yn gwynebu caledi ariannol o ganlyniad i’r golled yn eich cyflog tra yn hunanynysu. Esiampl o ble gall taliad ei wneud yw lle mae unigolyn ac incwm net o lai na £500 yr wythnos.

**Os gofynnwyd i’ch plentyn hunanynysu**

Gall rhiant neu warcheidwad wneud cais am daliad os gofynnwyd yn ffurfiol i’ch plentyn hynanynysu. Ni allwch gael y taliad os yw ap COVID y GIG wedi gofyn i’ch plentyn hunanynysu.

I gael y taliad mae’n rhaid bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol, addysg bellach neu ofal plant (hyd at a gan gynnwys Blwyddyn 11, neu hyd at 25 oed os oes ganddo anghenion cymhleth) a’i fod wedi cael cais ffurfiol i hunanynysu gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru.